

## Prosiect Eiriolaeth Dementia Annibynnol



### Prosiect Eiriolaeth Dementia Annibynnol

Mae ein gwasanaeth eiriolaeth dementia annibynnol yn sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed a'ch bod wrth galon y penderfyniadau sy'n effeithio ar bob agwedd ar eich bywyd.

#### Beth yw Eiriolaeth Dementia?

Gall byw gyda dementia fod yn brofiad dychrynlyd. Mae systemau gofal iechyd newydd i'w deall a heriau newydd i'w hwynebu ym mhob cefndir. Nid yw byw gyda dementia yn golygu eich bod yn colli eich hawl i ddweud eich dweud yn eich bywyd. Rydych yn dal i fod yn unigolyn ac yn haeddu rhywun yn gwrando ar eich llais ac yn parchu'ch dymuniadau.

Mae ein prosiect eiriolaeth dementia yn cefnogi pobl sy'n 50+ oed, yn byw gyda dementia, yn mynd drwy'r broses o gael diagnosis o ddementia, neu'n dechrau sylwi ar newidiadau yn eu cof. Rydym hefyd yn gweithio gyda gofalmwyr pobl hŷn sy'n byw gyda dementia.



### Sut fydd fy Eiriolwr Dementia yn helpu?

Gallai gweithio gydag un o'n heiriolwyr dementia olygu eich bod yn:

- Deall eich opsiynau llety
- Deall y penderfyniadau y gallwch eu gwneud er mwyn cynllunio ar gyfer y cyfnod hwyrach mewn bywyd
- Cael cefnogaeth i geisio'r gwasanaethau sydd eu hangen arnoch
- Parhau i fod yn gysylltiedig â'r pethau sydd fwyaf pwysig i chi
- Ymwybodol o'ch hawliau, a sicrhau eu bod yn cael eu parchu a'u cynnal
- Teimlo'n ddiogel ac yn cael y cymorth sydd ei angen arnoch pan rydych ei angen
- Dweud eich dweud ynghylch pob agwedd ar eich bywyd
- Dweud eich dweud mewn cyfarfodydd.



### Beth na fydd ein heiriolwyr dementia yn ei wneud

- Rheoli eich arian, gwneud eich siopa, nac yn rhoi unrhyw gyngor i chi yn ymwneud â chyllid
- Rhoi eu barn i chi neu'ch cyngori ar benderfyniadau
- Cyflwyno hawliau am fudd-daliadau ar eich rhan
- Cyfryngu gydag aelodau'r teulu.

Mae'r gwaith rydym yn ei wneud gyda chi yn gyfrinachol. Mae hynny'n golygu y byddwn bob amser yn siarad â chi cyn trafod eich gwybodaeth gydag unrhyw un arall.

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth yn ddiogel ac mae gennych yr hawl i weld eich cofnodion eich hun. Byddwn yn eich cefnogi i gael golwg arnynt pe dymunech.

Os ydych chi'n teimlo eich bod mewn perygl o niwed neu gamdriniaeth, gallwn edrych ar ffyrdd o'ch helpu i deimlo'n ddiogel.

Rydym yn croesawu pob adborth ynghylch ein gwasanaeth. Os oes gennych unrhyw sylwadau, canmoliaethau, neu gwynion ynghylch y gwasanaeth rydych wedi'i gael, anfonwch e-bost at [dementiaadvocacy@agecymru.org.uk](mailto:dementiaadvocacy@agecymru.org.uk)



Am ragor o wybodaeth, gallwch gysylltu â **07944 996599**, anfon e-bost at [dementiaadvocacy@agecymru.org.uk](mailto:dementiaadvocacy@agecymru.org.uk) neu fynd i [www.agecymru.org.uk/advocacy](http://www.agecymru.org.uk/advocacy)


Age Cymru, Llawr Isaf,  
Tŷ Mariners, Llys Trident,  
Heol East Moors, Caerdydd CF24 5TD

Ffôn: 029 2043 1555

E-bost: [enquiries@agecymru.org.uk](mailto:enquiries@agecymru.org.uk)  
[www.agecymru.org.uk](http://www.agecymru.org.uk)

#### Dilynwch ni ar:

 [facebook.com/agecymru](https://www.facebook.com/agecymru)

 [twitter.com/agecymru](https://twitter.com/agecymru)